OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1338 (Cy.130) (C.45)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006

*Wedi'i wneud - - 16 Mai 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 120(2) a 125(4) o Ddeddf Addysg 2005(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006.

**2.** –

(1) Yn y Gorchymyn hwn–

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996(**2**);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**3**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Medrau 2000(**4**); ac

ystyr "Deddf 2005" ("*the 2005 Act*") yw Deddf Addysg 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf 2005 ac at Atodlenni iddi.

### Y Diwrnod penodedig

**3.** Daw darpariaethau Deddf 2005 a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2006 o ran Cymru.

**4.** –

(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae darpariaethau Deddf 2005 a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn i ddod i rym ar 1 Medi 2006 o ran Cymru a Lloegr.

(**1**) 2005 p.18.
(**2**) 1996 p.57.
(**3**) 1998 p.31.
(**4**) 2000 p.21.

(2) Nid yw adrannau 41 a 42 i ddod i rym ond i'r graddau eu bod yn gymwys i ysgolion arbennig o'r disgrifiad sydd yn adran 28(2)(d).

**5.** Daw darpariaethau Deddf 2005 a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2007 o ran Cymru a Lloegr.

**Darpariaethau trosiannol ac arbedion**

**6.** Mae'r darpariaethau trosiannol a'r arbedion a nodir yn Atodlen 4 yn gymwys.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*

16 Mai 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## ATODLEN 1

Erthygl 3

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2006 o ran Cymru

| *Y ddarpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Adran 44 | Categorïau o ysgolion sy'n peri pryder. |
| Adran 45 | Achosion pan gaiff y Cynulliad gyfarwyddo cau ysgol. |
| Adran 46 | Dosbarthiadau chwech y mae gofyn eu gwella'n sylweddol. |
| Adran 47 | Ystyr "denominational education". |
| Adran 51 | Pŵer yr AALl i arolygu ysgol a gynhelir at ddiben penodol. |
| Adran 53, i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 7 y cyfeirir atynt isod. | Arolygu gwarchod plant, gofal dydd ac addysg feithrin. |
| Adran 54 | Arolygu ysgolion annibynnol. |
| Adran 58 | Arolygu cofnodion cyfrifiadurol. |
| Adran 59 | Adroddiadau cyfunol. |
| Adran 60 | Diddymu Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996. |
| Adran 61, i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 9 y cyfeirir atynt isod. | Diwygiadau pellach sy'n ymwneud ag arolygu ysgolion. |
| Adran 71 | Cynigion sy'n ymwneud ag ysgolion arbennig a gynhelir. |
| Adran 105 | Darparu a chyllido addysg uwch mewn ysgolion a gynhelir. |
| Adran 106 | Trefniadau derbyn i wneud darpariaeth arbennig i blant sy'n derbyn gofal. |
| Adran 115 | Pwer corff llywodraethu i wneud darpariaeth amgen ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd. |
| Adran 116 | Rhiant yn methu â sicrhau bod plentyn yn mynychu'r ddarpariaeth amgen. |
| Adran 117 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 18 isod. | Diwygiadau pellach sy'n ymwneud â Rhan 4. |
| Adran 118 | Ystyr "the 2002 Act" yn Rhan 4. |
| Adran 123 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 19 y cyfeirir atynt isod. | Diddymiadau. |
| Atodlen 5 | Dosbarthiadau chwech y mae angen eu gwella'n sylweddol. |
| Paragraffau 6 i 24 o Atodlen 7. | Arolygu gwarchod plant, gofal dydd ac addysg feithrin. |
| Atodlen 8 | Arolygu ysgolion annibynnol. |

| *Y ddarpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Paragraffau 8 i 21 a 28 i 30 o Atodlen 9. | Diwygiadau pellach sy'n ymwneud ag arolygu ysgolion. |
| Paragraffau 1, 6 a 15 o Atodlen 18. | Diwygiadau pellach sy'n ymwneud â Rhan 4. |
| Yn Atodlen 19, Rhan 1: | Diddymiadau |
| Y diddymiadau sy'n ymwneud â: Deddf Addysg 1996, Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996, Deddf Addysg 1997, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Deddf Dysgu a Medrau 2000 (ac eithrio adran 81), Deddf Addysg 2002. | Diddymiadau. |

## ATODLEN 2

Erthygl 4

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2006 o ran Cymru a Lloegr

| *Y ddarpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Adran 19 | Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| Adran 20 | Swyddogaethau'r Prif Arolygydd. |
| Adran 21 | Adroddiadau blynyddol ac adroddiadau eraill i'r Cynulliad. |
| Adran 22 | Pŵer y Cynulliad i sefydlu panel cynghorol. |
| Adran 23 | Pwerau mynediad etc y Prif Arolygydd. |
| Adran 24 | Pŵer y Prif Arolygydd i drefnu arolygiadau. |
| Adran 25 | Cofrestru Arolygwyr yng Nghymru. |
| Adran 26 | Tynnu arolygwyr o'r Gofrestr a gorfodi ac amrywio amodau. |
| Adran 27 | Apelau ynghylch cofrestru. |
| Adran 28 | Dyletswydd i drefnu bod ysgolion penodol yn cael eu harolygu'n rheolaidd. |
| Adran 29 | Cyhoeddi adroddiadau arolygu. |
| Adran 30 | Talu ffioedd i Gronfa Gyfunol. |
| Adran 31 | Dehongli Pennod 3. |
| Adran 32 | Arolygiadau gan aelodau o'r Arolygiaeth. |
| Adran 33 | Dyletswydd i roi adroddiad ar arolygiadau adran 28. |
| Adran 34 | Arolygiadau adran 28 gan arolygwyr cofrestredig. |

| *Y ddarpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Adran 35 | Adroddiadau ar Arolygiadau gan aelodau o'r Arolygiaeth. |
| Adran 36 | Amseru arolygiadau adran 28 gan arolygwyr cofrestredig. |
| Adran 37 | Dyletswydd i hysbysu pan fo arolygiad yn dangos bod ysgol a gynhelir yn peri pryder. |
| Adran 38 | Cyrchfan adroddiadau: ysgolion a gynhelir. |
| Adran 39 | Datganiad i'w baratoi gan awdurdod priodol i'r ysgol. |
| Adran 40 | Datganiad i'w baratoi gan awdurdod addysg lleol. |
| Adran 41 | Cyrchfan adroddiadau: ysgolion nas cynhelir. |
| Adran 42 | Datganiad i'w baratoi gan berchennog ysgol. |
| Adran 43 | Dehongli Pennod 4. |
| Adran 50 | Arolygu addysg grefyddol: Cymru. |
| Adran 52 | Darparu gwasanaethau arolygu gan AALl yng Nghymru. |
| Adran 53, i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 5 o Atodlen 7. | Arolygu gwarchod plant, gofal dydd ac addysg feithrin. |
| Adran 61, i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 9 y cyfeirir atynt isod. | Diwygiadau pellach sy'n ymwneud ag arolygu ysgolion. |
| Adran 123, i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 19 y cyfeirir atynt isod. | Diddymiadau. |
| Atodlen 2 | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| Atodlen 3 | Cofrestru Arolygwyr yng Nghymru: Tribiwnlysoedd sy'n gwrando apelau o dan adran 27. |
| Atodlen 4 | Arolygiadau Ysgolion yng Nghymru o dan adran 28. |
| Atodlen 6 | Arolygiadau o addysg enwadol yng Nghymru. |
| Paragraff 5 o Atodlen 7. | Arolygu gwarchod plant, gofal dydd ac addysg feithrin. |
| Paragraffau 6, 7, 22 , 24, 25 a 27 o Atodlen 9. | Diwygiadau pellach sy'n ymwneud ag arolygu ysgolion. |
| Yn Atodlen 19, Rhan 1, yn Neddf Plant 1989, diddymu yn adran 79T(2)(a) y geiriau "the quality and standards of". | Diddymiadau. |

## ATODLEN 3

Erthygl 5

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2007 o ran Cymru a Lloegr

| *Y ddarpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Adran 55 | Arolygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru. |
| Adran 56 | Arolygu gwasanaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru. |
| Adran 57 | Arolygiadau o dan adrannau 55 a 56: darpariaethau pellach. |
| Adran 123 i'r graddau y mae'n ymwneud a darpariaethau Atodlen 19 y cyfeirir atynt isod. | Diddymiadau. |
| Yn Atodlen 19, Rhan 1, y diddymiadau yn Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a diddymiad adran 81 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000. | Diddymiadau. |

## ATODLEN 4

Erthygl 6

DARPARIAETHAU TROSIANNOL AC ARBEDION

**1.** Mae paragraffau 2 i 5 o'r Atodlen hon yn gymwys er i adran 60 (Diddymu Deddf 1996) gael ei dwyn i rym gan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn.

**2.** Pan fo'r adroddiad diweddaraf ar arolygiad ysgol wedi'i wneud o dan Ddeddf 1996 a phan fo'r adroddiad hwnnw wedi nodi bod gofyn cymryd camau arbennig mewn perthynas â'r ysgol, mae'r adroddiad hwnnw i'w drin yn adroddiad ar arolygiad a nododd fod gofyn cymryd camau arbennig o dan Ran 1 o Ddeddf 2005 at ddibenion–

(a) adrannau 34(7)(b) a 35(2)(b) a (5)(b); a

(b) adrannau 14 i 19 o Ddeddf 1998 (ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder).

**3.** Pan fo'r adroddiad diweddaraf ar arolygiad o ysgol yn un a wnaed o dan y Ddeddf honno ac a nododd fod gan yr ysgol wendidau difrifol, mae'r adroddiad hwnnw i'w drin yn adroddiad ar arolygiad a nododd fod yr ysgol yn un yr oedd gofyn ei gwella'n sylweddol o dan Ran 1 o Ddeddf 2005 at ddibenion–

(a) adrannau 34(8)(b) a 35(3)(b) a (6)(b); a

(b) adrannau 14 i 19 o Ddeddf 1998.

**4.** Pan fo'r adroddiad diweddaraf ar arolygiad ysgol yn un a wnaed o dan Ddeddf 1996 ac a nododd fod gan yr ysgol ddosbarth chwech diffygiol, mae'r adroddiad hwnnw i'w drin yn adroddiad arolygiad a nododd fod gofyn gwella sylweddol ar ddosbarth chwech yr ysgol at ddibenion adran 113 o Ddeddf 2000 ac Atodlen 7 iddi (fel y'i diwygiwyd gan adran 46 o Ddeddf 2005 ac Atodlen 5 iddi).

**5.** Pan fo hysbysiad apêl yn cael ei gyflwyno i'r tribiwnlys cyn 1 Medi 2006, mae adran 27 ac Atodlen 3 i fod yn gymwys i'r apêl fel petai is-adran (2) o adran 27 yn cael ei hepgor.

**6.** Er i adran 27 ac Atodlen 3 iddi gael eu dwyn i rym, ac er i adran 9 o Ddeddf 1996 ac Atodlen 2 iddi gael eu diddymu, oll gan y Gorchymyn hwn ar 1 Medi 2006, mae unrhyw reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 1996 sydd mewn grym ar 31

Awst 2006 ("*y Rheoliadau presennol*") i barhau i fod yn effeithiol o ran Cymru hyd at y dyddiad pryd y daw rheoliadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 2 o Atodlen 3 ddod i rym, fel petai'r Rheoliadau presennol wedi cael eu gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan y paragraff hwnnw o'r Atodlen honno.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r gorchymyn cychwyn cyntaf o dan Ddeddf Addysg 2005 ("*Deddf 2005*") i gael ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n dwyn i rym holl ddarpariaethau Deddf 2005 sy'n gofyn am orchymyn gan y Cynulliad Cenedlaethol i'w dwyn i rym, ac eithrio adran 101 ac Atodlen 16 (a diwygiadau canlyniadol perthynol a diddymiadau yn Atodlenni 18 a 19) ynghylch ariannu ysgolion a gynhelir, ac adran 70 (a diwygiad canlyniadol perthynol yn Atodlen 12) ynghylch cynigion i gau ysgolion cynradd gwledig. Er hynny, dygir adrannau 41 a 42 i rym yn unig wrth eu cymhwyso i ysgolion arbennig o'r math y cyfeirir ato yn adran 28(2)(d).

Ar wahân i ddarpariaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru ac a ddygir i rym gan y Gorchymyn ar 1 Ebrill 2007 (gweler Atodlen 3), dygir y darpariaethau a ddygir i rym gan y Gorchymyn i rym ar 1 Medi 2006 (gweler Atodlenni 1 a 2). Dygir y darpariaethau a restrir yn Atodlen 1 i rym o ran Cymru yn unig. Am resymau technegol, mae'r rhai a restrir yn Atodlenni 2 a 3 yn cael eu dwyn i rym o ran Cymru a Lloegr, ond at ddibenion ymarferol, nid ydynt yn gymwys yn Lloegr.

Mae disgrifiad cryno isod o'r darpariaethau a ddygir i rym gan y Gorchymyn. Yn yr hyn a ganlyn, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf 2005 ac at Atodlenni iddi.

Darpariaethau yn Rhan 1 a ddygir i rym gan y Gorchymyn

Gan mwyaf, mae darpariaethau ar wahân (a gwahanol) yn gymwys i Gymru i'r rhai sy'n gymwys i Loegr. Mae penodau 1 a 2 o Ran 1 o Ddeddf 2005, a ddaeth i rym pan gafwyd y Cydsyniad Brenhinol (7 Ebrill 2005) yn ddarpariaethau newydd nad ydynt yn gymwys ond i Loegr. O ran Lloegr, maent yn disodli'r gyfraith sy'n ymwneud ag arolygiadau ysgolion yn Neddf Arolygiadau Ysgolion 1966 ("Deddf 1996"). Yn rhinwedd adran 62 gellir cyflwyno system debyg i Gymru os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu gwneud hynny ac ar adeg y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei phenderfynu. Yn y cyfamser, mae darpariaethau Rhan 1 (gan gynnwys Atodlenni 1 - 9) a ddygir i rym gan y Gorchymyn hwn gan mwyaf yn ailddeddfu Deddf 1996 fel y mae'n gymwys i Gymru. Diddymir y Ddeddf honno yn ei chyfanrwydd gan adran 60. Ar wahân i'r darpariaethau a ailddeddfir, mae'r darpariaethau a ddygir i rym gan y Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer arolygu'r gwasanaethau gyrfaoedd, ac yn gwneud rhai diwygiadau (diwygiadau canlyniadol at ei gilydd) i amrywiol ddeddfiadau sy'n ymwneud ag arolygiadau (gan gynnwys deddfiadau sy'n ymwneud ag arolygu dosbarthiadau chwech; gwarchod plant, gofal dydd ac addysg feithrin; ac ysgolion annibynnol) - Atodlenni 5 i 9.

Ymhlith y newidiadau sylweddol y mae–

- darpariaeth newydd ar gyfer arolygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru (adrannau 55 - 57)

- pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol i roi cyngor ar benodi neu ddiswyddo Prif Arolygydd Cymru, ac i sefydlu bwrdd cynghori i roi cyngor ynghylch swyddogaethau'r Prif Arolygydd (adrannau 19 a 22)
- newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder; yn enwedig, yn y ffordd y mae'r ysgolion hynny i'w categoreiddio mewn adroddiadau arolygu (Pennod 5 o Ran 1)
- O ran arolygiadau o addysg grefyddol, mae gofyniad newydd i ysgolion eglwysig ymgynghori â phersonau a bennir mewn rheoliadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol cyn dewis arolygydd (adran 50)
- darpariaeth newydd sy'n galluogi gwneud adroddiadau cyfunol o ran arolygiadau a wneir o dan Ddeddf 2005 ac amryw o ddeddfiadau eraill sy'n ymwneud ag addysg a phlant (adran 59)

**Darpariaethau yn Rhannau 2 a 4 a ddygir i rym gan y Gorchymyn**

Mae adran 71 yn diwygio adran 31 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i wneud ymgynghori yn ofynnol o ran cynigion penodol sy'n ymwneud ag ysgol arbennig a gynhelir.

Mae adran 73 yn diffinio termau a ddefnyddir yn Rhan 2.

Mae adran 105 yn mewnosod adran 28A newydd yn Neddf Addysg 2002 sy'n rhoi pwerau cyfyngedig i ysgolion a gynhelir gynnig cyrsiau addysg uwch i'w disgyblion.

Mae adran 106 yn mewnosod adran 89(1A) newydd yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ynghylch trefniadau derbyn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae adran 115 yn diwygio adran 29(3) o Ddeddf Addysg 2002 (ynghylch pŵer corff llywodraethu ysgol i gyfarwyddo disgyblion i fynychu darpariaeth addysgol amgen).

Mae adran 116 yn mewnosod adran newydd 444ZA yn Neddf Addysg 1996 ynghylch methiant â sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol a hysbysiadau cosb.

Mae adran 117 yn cyflwyno Atodlen 18 sy'n diwygio amryw o ddeddfiadau.

Mae adran 118 yn diffinio “the 2002 Act” at ddibenion Rhan 4.

Mae adran 123 yn cyflwyno Atodlen 19 (Diddymu).

**Darpariaethau trosiannol ac arbedion**

Mae Atodlen 4 yn cynnwys darpariaethu trosiannol ac arbedion.